# Papur Elim, Heol Awst a'r Priordy

GOFALAETH CAERFYRDDIN A BANCYFELIN



**Oleuni mwyn, trwy dew gysgodau'r nef, O! arwain fi;**
**Mae'r nos yn ddu, a minnau'n mhell o dref, O! arwain fi;**
**Cyfeiria'm traed, ni cheisiaf weld ymhell,**
**I mi, mae goleu arf fy ngham yn well.**

**Thomas Lefi**

*Gweler yr erthygl y tu mewn*

**Rhifyn 13**
**PAPUR HYDREF 2025**

# GAIR GAN EIN GWEINIDOG

## Chiang Mai




**Byddaf dramor am 2 wythnos yn ystod mis Hydref. Diolch yn fawr iawn i'r Ofalaeth am ganiatáu i mi gael mynd i wlad Thai. Nid gwyliau mo'r daith hon ond cyfle i gynrychioli Undeb yr Annibynwyr Cymraeg yng Nghyngor Cymundeb Eglwysi Diwygiedig y Byd (WCRC - World Communion of Reformed Churches) sy'n cyfarfod yn Chiang Mai yng Ngwlad Thai fis yma.**

**Pwy yw'r WCRC?**

**Mae 100 miliwn o Gristnogion yn perthyn i'r WCRC, corff sydd ar lefel fyd-eang yn cynrychioli mwy na 230 o eglwysi, enwadau ac undebau, gan gynnwys Undeb yr Annibynwyr.**

**Ac rydym ni felly yn rhan o'r teulu mawr byd-eang hwn a chredwn gyda'n cyd-aelodau o'r WCRC…**

World Communion of Reformed Churches

'***bod y ffydd Gristnogol yn golygu ymateb i alwad Duw i feithrin cyfiawnder ac ateb anghenion ysbrydol pawb wrth drawsnewid y byd, trwy gariad Iesu Grist.***

***Trwy ymgysylltiad cadarn â Gair Duw ac alwad yr Ysbryd Glân, rydym yn cael ein trawsnewid yn barhaus wrth inni ymdrechu i sicrhau cyfranogiad llawn a chyfiawn i bawb.***

***Yn ein hamrywiaeth, rydym yn ceisio bod yn fynegiant byw o "undod yr Ysbryd yng nghwlwm tangnefedd" (Effesiaid 4:3).***
***Rydym yn gweithio i adnewyddu ac adfer yr economi a'r ddaear, fel y gall pob dynoliaeth a'r holl greadigaeth fyw bywyd yn ei gyflawnder.'***

**Braint fawr i mi fydd mynychu'r gynhadledd hon ac edrychaf ymlaen yn fawr at rannu fy mhrofiad â chi oll wedi i mi ddychwelyd adre. Rwy'n sicr y bydd y profiad yn cyfoethogi fy ngweinidogaeth yn fawr.**

## Gweddi Cynhaeaf



**Gweddîwn**

Dduw’r Creawdwr, rwyt yn rhoi bywyd a goleuni i'r byd.
Cydlawenhawn yn rhyfeddod a chyflawnder dy greadigaeth.
Diolchwn am yr hadau bach sy'n blodeuo'n goed mawr
ac yn dwyn ffrwyth helaeth.
Ymhyfrydwn yn rhoddion natur a'r gobaith a ddaw yn sgil
cynhaeaf da.

Dduw Cariad, rwyt ti’n adnabod ein tristwch a'n ffaeleddau.
Rydyn ni wedi torri'r hyn oedd yn ffynnu. Rydyn ni wedi
bwyta a dinistrio'r hyn a roddwyd i ni i'w feithrin.
Rydyn ni'n edifarhau am ein camweddau,
ac yn gofyn i ti ein harwain ni ar hyd llwybrau cyfiawnder.

Y Duw Byw, rwyt ti’n galw arnom i hau heddwch, i dyfu
i droi’n gobaith yn weithred,
ffydd, a gofalu am ein gilydd mewn cariad.

Gwneler dy ewyllys.
Planna ynom ymrwymiad i ddilyn yr alwad honno.
Cryfha ein gobaith wrth i ni gyd-geisio dyfodiad dy deyrnas
ar y ddaear.

**Amen**



Gweddi gan Cymorth Cristnogol

## DARLLENIADUR

| Mis Hydref | Darlleniad |
|---|---|
| Wythnos 1 | Luc 17:5-10 |
| Wythnos 2 | Luc 17:11-19 |
| Wythnos 3 | Luc 18:1-8 |
| Wythnos 4 | Luc 18:9-14 |

## DIOLCH YN FAWR

*Cydnabyddir yn ddiolchgar gyfraniad*

**PHIL HOPLEY**
**a**

**PHERSON DIENW**

***at gyhoeddi'r Papur y mis hwn***

YN DYMUNO NODDI PAPUR YR OFALAETH?
Cyswllt
PHILIP JONES
Trysorydd
☎ 01267 233437 / info@maxevans.co.uk



Gellir trosglwyddo cyfraniad i'r cyfrif isod gan nodi'ch enw a "papur" fel cyfeirnod:


'Eglwys Annibynnol Y Priordy' Banc Lloyds
30-91-68
Acc no: 00229403

neu osod cyfraniad mewn amlen a'i dychwelyd i'n Gweindog neu Ysgrifennydd yr Eglwys neu ei rhoi yn y blwch casglu.

**DIWRNOD HEDDWCH RHYNGWLADOL**
**Dydd Sul 21 MEDI 2025**



**Heledd ap Gwynfor (P), Maer ein Tref, yn codi Baner Heddwch y tu allan i Neuadd y Dref ar Ddiwrnod Heddwch y Byd. Diolch i'n Gweinidog am drefnu'r achlysur.**

***BLYCHAU STAMPIAU A CHETRYS Y PRIORDY***
***Croeso i chi gyfrannu – y cyfan yn mynd at achoson da***

**ARGYFWNG AR Y LAN ORLLEWINOL**
**Hanes Pentref Umm al Khair**
**Sgwrs gyhoeddus gan Mohammed Tamimi**
***Cyfarwyddwr Hebron International Resource Network (HIRN)***
**Capel Wesle**
**Caerfyrddin**
**Dydd Sul 5 Hydref 2025 – 7pm**
**Mynediad trwy rodd wrth y drws i gefnogi HIRN**
***Am ragor o wybodaeth – Person Cyswllt – Eirlys Owen***

**Mwynwen Jones…**



**Oedfa Deulu yn y Priordy**
**Sul 14 Medi 2025**

Roedd croeso twymgalon yn ein disgwyl gan ein Gweinidog yn oedfa deulu gynta'r tymor. Yr emyn cyntaf oedd '**Molwch ar yr utgorn**' ac fe'i chanwyd i gyfeiliant y band. Gwnaed y casgliad gan Cadi, Ifan, Sianco, Aneirin a Brynmor. Greta Wyn a Miriam gyhoeddodd yr ail emyn '**Y mae in Waredwr**'.

Yna, aeth Greta Gwyn Jones a Martha Nel ati wedyn i sôn am y *Parc Run* sydd yn boblogaidd gan rai o blant yr Ysgol Sul cyn dod i'r capel. Daethpwyd i'r casgliad ei bod hi'n bwysig cadw'n heini gan ddyfynu'r adnod '**Mae ymarfer corff yn beth da, ond mae ymdrechu i fyw fel mae Duw am i ti fyw yn bwysig hefyd'**.

Trafodwyd sut i 'ymarfer' y bywyd Cristnogol a dod yn fwy heini fel Cristion drwy addoli, gweddïo a dysgu am Iesu. Cytunodd y ddwy i ymarfer y ddau beth - y *Parc Run* a'r Ysgol Sul er mwyn bod yn 'siwper ffit'.

Beca a Sianco oedd yn gweddïo gan ddiolch am ofal Duw dros wyliau'r haf gan edrych ymlaen at ddechrau tymor newydd yn yr Ysgol Sul.

Meredydd aeth i'r pwlpud wedyn yn ei grys beicio Tywi Riders. Cafwyd ychydig o hanes y felodrôm ganddo sydd ym Mharc Caerfyrddin. Cytunodd yntau i ymarfer corff drwy feicio ac i ddod i'r Ysgol Sul hefyd er mwyn bod yn 'siwper ffit'. Cyfeiriodd at y llwybr beicio newydd sy'n cychwyn yn Abergwili a dangoswyd ffilm fer ohono i sain y gân gyfarwydd 'Hen feic 'peni-ffardding fy nhaid'… ac wrth i'r ffilm ddirwyn i ben, cafodd pawb dipyn o syndod wrth weld ein Gweinidog Beti-Wyn yn dod i mewn i'r capel ar gefn ei beic - beic trydan gyda thyrbo cofiwch!



Yn dilyn yr emyn '**Diolch iti Iôr**' i gyfeiliant y band taro, aeth Beti-Wyn ati i drafod y beic a'i rannau gwahanol gyda'r plant gan nodi bod y batri yn gallu mynd yn fflat, jyst fel un ni a'n bod yn dod i'r

capel i gael ein ‘chargio’. Nododd bod yr olwyn fel cylch heb ddechrau na diwedd yn union fel cariad Duw.

Yna canwyd dwy gân hyfryd gan blant yr ysgol Sul cyn diweddu drwy gydganu’r emyn ‘**Un cam bach’**.








## Ein Papur yn Sgwrsio â Phregethwr Cwrdd Diolchgarwch y Priordy

## DR FIONA GANNON



**EP: Rych chi'n arweinydd Capel y Nant, Clydach, Fiona, allwch chi esbonio i ni beth yn union mae hynny'n ei olygu?**
**FG:** *Wel, y patrwm sydd gennym ni yng Nghapel y Nant yw Arweinydd a Phwyllgor Gwaith, yn hytrach na'r patrwm Gweinidog a diaconiaid mwy traddodiadol. Y nod yw sicrhau bod cynifer o bobl â phosib yn cyfrannu at waith yr eglwys, a bod cyfle i ddefnyddio doniau gwahanol, a chydweithio, fel nad oes un person yn ysgwyddo gormod o gyfrifoldeb.*



**EP: Ai dyma'r ffordd ymlaen i gapeli Cymru'r dyddiau hyn yn eich barn chi**?
**FG:** *Rwy'n credu, pa batrwm bynnag sydd gennych chi o ran arwain yr eglwys, bod annog pawb i ddefnyddio'u doniau a chyfrannu at y gwaith yn allweddol*.

**EP: Rych chi'n ferch y Mans, Fiona. Tybed faint o ddylanwad fu hynny arnoch?**
**FG***: Fel gallech chi ddisgwyl, fe ges i fagwraeth lle roedd y Beibl (a'r llyfr emynau) yn gyfarwydd dros ben, ac rwy'n ddiolchgar iawn am hynny – mae wedi bod yn sylfaen gadarn i fi dros y blynyddoedd.*

**EP: Fe dderbynioch eich addysg gynnar ar yr aelwyd. Sut brofiad oedd hwnnw?**
**FG***: Fel mae'n digwydd, person llyfrau wyf fi, ac rwy'n dysgu trwy ddarllen, felly fe weithiodd hynny'n eitha da i fi, ac fe ddes i'n ddysgwr annibynnol oedd yn gallu rheoli fy amser yn eitha cynnar.*

**EP: Rych chi'n dipyn o ieithgi, Fiona! Buoch yn darlithio yn y Brifysgol mewn meysydd ieithyddol, rych chi'n gyfieithydd profiadol ac mae doethuriaeth gennych mewn tafodieitheg a chymdeithaseg iaith. Beth ydy'r apêl, tybed?**

**FG**: *Cymraeg oedd fy mhwnc yn y Brifysgol, ac fe sylweddolais yn fuan iawn, er fy mod wrth fy modd yn darllen llenyddiaeth, mai sut roedd yr iaith yn gweithio ac wedi datblygu oedd y pwnc mwyaf diddorol i mi. Roeddwn i wrth fy modd yn dadansoddi cystrawennau ac yn gweld esblygiad yr iaith.*

**EP: Mae diddordeb mawr gennych mewn cerddoriaeth a chanu'r organ.**

**FG:** *Mae fy mywyd wedi bod yn llawn cerddoriaeth ers pan oeddwn i'n blentyn. Rwyf wrth fy modd wrth yr organ a'r piano, rwy hefyd yn canu, ac rwy'n gallu chwarae'r obo a'r sacsoffon. Yn ddiweddar, ers i Llywelyn, fy mab, ymuno â band pres Y Waun, rwy bellach yn chwarae offer taro hefyd!*




**EP: Mae'n debyg fod cwmni cathod yn apêl pellach!**

**FG***: Alla i ddim dychmygu cartref heb gath, ac rydyn ni'n cefnogi elusennau anifeiliaid fel Swansea Cats and Kittens trwy roi cartref i gathod sydd wedi cael amser caled. Ar hyn o bryd mae gennym ni ddau frawd, Macsen a Donatello, a mam a merch, Lleuwen a Lleucu Llwyd.*



**EP: Tybed beth ydych yn mwynhau ei wneud gyda'r teulu, Fiona?**

**FG:** *Wel, mae'r gŵr, Bill, a'r mab, Llywelyn, yn gerddorol iawn hefyd, felly rydyn ni'n cynnal nosweithiau cerddorol fel teulu. Rydyn ni hefyd yn mwynhau mynd i'r sinema (er nad ydyn ni bob amser yn dewis yr un ffilmiau!), a chwarae gêmau bwrdd.*




**EP: Rych chi hefyd yn cynnal siop elusen, O Law i Law, yng Nghlydach.**

**FG:** *Ydw, rwy wrth fy modd yn y siop, sy'n rhan o elusen Tŷ Croeso yn y pentref. Mae'n braf iawn gallu helpu pobl sy'n mynd trwy gyfnod anodd, yn ogystal ag annog arferion da o ran ailddefnyddio ac ailgylchu. Mae'n siop sy'n cynnig gwasanaeth ymarferol i drigolion Clydach, ond mae hefyd yn llawer mwy na hynny, ac yn hafan i alw heibio am sgwrs neu seibiant.*

**EP**: **I orffen, Fiona, tybed ydych yn gallu cynnig air o obaith i Gristnogion yr unfed ganrif ar hugain?**
**FG:** *Wel, i ddyfynnu'r emyn, 'Saif ein gobaith yn yr Iesu', ac rwy'n credu mai cadw ein ffocws ar Iesu yw'r unig ffordd i ni gadw popeth sy'n digwydd yn ein byd mewn persbectif. Fe ddywedodd Iesu'n gwbl glir y dylen ni fod yn dangos ein cariad at Dduw trwy garu ein cymdogion, ac mae gan bob un ohonon ni ddoniau sy'n ein galluogi i wneud hynny. Os dathlwn ni'r doniau hynny, a'u defnyddio er lles eraill, gallwn ni fod yn fodd i ledaenu goleuni a gobaith yn y byd.*



***Llawer o ddiolch i chi, Fiona, am y sgwrs a phob dymuniad da i chi a Chapel y Nant i'r dyfodol***

**CWRDD CHWARTER**
**Dydd Iau, 27 Tachwedd 2025**

**Y Gynhadledd am 10.30**


**Cyfarfod y Prynhawn am 1.30pm**
**Capel Seilo, Llangeler**





**MUNUD I FEDDWL**

**Bydd ein Gweinidog yn cyflwyno *Munud i Feddwl* (yn ystod rhaglen *Bore Cothi* ar *Radio Cymru* bob bore Mercher yn ystod mis Hydref**




**Dafydd Elia-Thomas**
**Aled Eurig**

**Gwasg Prifysgol Cymru**
**Medi 2025**
**£25**

***Hanes bywyd Dafydd Elis-Thomas, y gwleidydd dadleuol wnaeth weddnewid gwleidyddiaeth ein cenedl.***


# CYNGOR DOETH

**Gwelwyd y geiriau isod ar wal ger y fynedfa i farchnad Dinas Caer adeg yr Eisteddfod Genedlaethol yn Wrecsam**




**Sut i weithio’n well**

**1.Gwneud un peth ar y tro**
**2. Adnabod y broblem**
**3. Dysgu gwrando**
**4.  Dysgu gofyn cwestiynau**
**5.  Gwahaniaethau rhwng synnwyr a dwli**
**6. Derbyn bod newid yn anochel**
**7. Cyfaddef camgymeriadau**
**8 Cadw popeth yn syml**
**9. Peidio â chynhyrfu**
**10. Gwenu!**

| | |
|---|---|
| <br> | **YNG NGOLWG FFYDD**<br><br>**Owain Llŷr Evans**<br><br>**Cyhoeddiadau'r Gair**<br>**Awst 2025**<br><br>**£9.99**<br><br>***Casgliad o dros 80 o erthyglau gan Owain Llŷr Evans a geir yma, sef ffrwyth ei lafur wrth baratoi colofn wythnosol i Golwg360 dros y 2 flynedd diwethaf*** |

# Y GYMANFA









**Olga Williams…**



**CYMANFA GANU UNDEBOL CAERFYRDDIN A'R CYLCH - 2025**

Pleser o'r mwyaf yw cyhoeddi llwyddiant Cymanfa Ganu Undebol Caerfyrddin a'r Cylch eleni yng Nghapel Heol Awst Nos Sul, 28 Medi.

Cafwyd gair o weddi agoriadol gan ein Gweinidog a chroesawodd y gynulleidfa yn gynnes iawn i'r Gymanfa.

Roedd y rhannau arweiniol yng ngofal Hywel ac Olga.

Estynnodd y Cadeirydd, Meinir James, groeso cynnes i'r Arweinyddes wadd Pat Jones ac i'r Organydd Meirion Wynn Jones.  Cafwyd canu ardderchog o dan arweiniad Pat gyda chymorth arbennig Meirion with yr organ.

Hyfrydwch oedd cael cwmni Côr Seingar, o dan arweiniad Nicki Roderick a'r cyfeilydd Elin Mair Rees, i gyflwyno datganiadau gwefreiddiol o 'Alelwia' gan Eric Jones, 'Rwyn dy weld yn sefyll', o'r Sioe Gerdd Ann, a'r anthem 'O Fab y Dyn' eto gan Eric Jones.

Cafwyd Cymanfa fendithiol iawn.



**OEDFA GOMISIYNU**

**Elinor Wyn Reynolds**

**yn**


**Ysgrifennydd Cyffredinol**


**Undeb yr Annibynwyr**















Daeth cyfeillion o bell ac agos i'r Oedfa Gomisiynu a gynhaliwyd yn y Priordy, Nos Fercher, 24 Medi 2025 - yr eglwys lle codwyd Elinor Wyn a ble mae'n ddiacon erbyn hyn. Croesawyd pawb wrth y drysau gan Sulwyn Thomas a Huw Jones a Meinir Lloyd oedd wrth yr organ.

Roedd yr alwad i addoli yng ngofal Y Parchedig Owain Llŷr Evans, Llywydd Undeb yr Annibynwyr.

Ar ôl canu'r emyn cyntaf – *Mawl fo i'r Arglwydd, sy'n Frenin gogoniant a mawredd*, cafwyd darlleniadau o'r Beibl gan Jean Lewis, Cadeirydd Cyngor Undeb yr Annibynwyr a Chadeirydd Cyfundeb Gorllewin Caerfyrddin. Dilynwyd hynny gan Weddi Mawl a Chyffes gan Y Parchedig Dewi Myrddin Hughes, Cyn Ysgrifennydd Cyffredinol Undeb yr Annibynwyr.





Yn dilyn yr emyn nesaf, *Dyma gariad fel y moroedd* gan Gwilym Hiraethog, roedd y Comisiynu yng ngofal y Llywydd. Traddododd Alun Charles air o gyflwyniad ar ran Eglwys y Priordy a chyflwynwyd Gweddi'r Comisiynu gan Y Parchedig Beti-Wyn James, Gweinidog Elinor Wyn yn y Priordy.



Wedi'r trydydd emyn, *Un Sylfaen fawr yr Eglwys,* pregethwyd yn rymus iawn ac yn bwrpasol i'r achlysur gan y Parchedig Dyfrig Rees, Cyn Ysgrifennydd Cyffredinol Undeb yr Annibynwyr.

Daeth yr oedfa i ben drwy ganu'r emyn *Saif ein gobaith yn yr Iesu* a'r Fendith gan y Llywydd.

Croesawyd pawb wedyn at y byrddau yn y Festri ac mae'n diolch yn fawr i wragedd y Priordy am y ddarparu a gweini'r lluniaeth a'r meibion am baratoi'r ystafell. Cyflwynwyd cacen ddeniadol a blasus iawn hefyd i Elinor.

Bu'r oedfa a'r cymdeithasu'n achlysuron hyfryd ar noson mor arbennig i Elinor Wyn, y lleygwr cyntaf a'r ferch gyntaf i ddal swydd Ysgrifennydd Cyfffredinol yr Undeb. Dymunwn y gorau iddi wrth y gwaith a phob bendith hefyd.

# CWIS Y DIARHEBION CYMRAEG

Mae pob dihareb yn dechrau gyda'r llythyren 'M'

Llanwch y Bylchau! Rhowch gynnig arni! Ceisiwch ddyfalu beth yw'r gair coll!
Pob lwc!!

| | |
|---|---|
| 1 | **Mae adar duon ym mob ---** |
| | |
| 2 | **Mae cof maith gan hen ---** |
| | |
| 3 | **Mae dechrau i ---** |
| | |
| 4 | **Mae eli at bob ---** |
| | |
| 5 | **Mae hanner torth yn well na ---** |
| | |
| 6 | **Mae meistr ar Meistr ---** |
| | |
| 7 | **Mae newid gwaith cystal â ---** |
| | |
| 8 | **Mae pawb yn Robin i ---** |
| | |
| 9 | **Mam pob drwg yw ---** |
| | |
| 10 | **March da yw ---** |

Atebion ar Dudalen 29

**BORE COFFI MACMILLAN LLWYDDIANNUS IAWN YNG NGHLWB Y CWINS ABERGWILI**

***Gweler y Rhwydwaith***










BORE COFFI MWYA'R BYD





# Cyrddau Diolchgarwch yr Ysgolion Sul

**Priordy, Bore Sul 5 Hydref am 10.00**
**Elim, Bore Sul 5 Hydref am 11.30**

***Byddwn yn derbyn nwyddau i'r Banc Bwyd. Diolch!***





## I'r dyddiadur!

**Oedfa Nadolig**
**Y Priordy**
**Bore Sul, 14 Rhagfyr**
**am 10.00**
**Parti i ddilyn**

**Oedfa Nadolig Elim**
**Prynhawn Sul,**
**14 Rhagfyr am 3.30**
**Parti i ddilyn**

## RHESTR SIOPA AR GYFER CYFRANIADAU I'R BANC BWYD

**Rhestr siopa**

- Tuniau o gig
- Tuniau o lysiau
- Tuniau o ffrwythau
- Coffi
- Te
- Tuniau o sŵp
- Tuniau o bwdin reis
- Tuniau o gwstard
- Jam
- Deunyddiau ymolchi





# CHWILOTAIR Y CYNHAEAF

| | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| G | C | A | S | G | L | U | W | R | G | O | L | A | H |
| L | D | W | Y | C | R | U | U | T | R | F | I | R | W |
| A | U | D | C | Y | N | H | A | L | I | W | R | I | D |
| W | W | S | H | C | A | R | H | A | L | T | I | R | I |
| L | F | F | A | D | R | R | T | Y | C | L | T | D | O |
| D | R | A | U | D | C | L | Y | U | Y | L | H | A | L |
| A | A | G | L | Y | F | R | W | D | W | A | E | R | C |
| D | D | W | G | D | D | U | R | U | U | U | C | P | H |
| D | U | S | C | A | A | L | F | D | L | A | R | Y | Y |
| R | I | A | Y | D | N | U | F | L | W | I | Y | L | E |
| U | P | L | Y | A | R | S | D | S | Y | S | Y | Y | D |
| A | E | N | L | R | R | S | U | A | D | Y | Y | C | N |
| T | C | I | D | H | T | R | E | L | H | L | N | F | C |
| F | C | U | D | P | R | I | D | D | G | L | A | L | F |

TIR
CREAWDWR
HAUL
FFRWYTHAU
CNYDAU
LLYSIAU
DIOLCH
PRIDD
CASGLU
CYNHALIWR
GLAW
DUW



O Dduw,
Diolchwn i ti ar adeg y cynhaeaf
am bopeth rydyn ni'n ei fwynhau.
Helpa i ni gofio am eraill
ac i roi yn hael
fel dysgodd Iesu i ni ei wneud.
Amen.



HWYL FAWR TAN TRO NESAF, Beti-Wyn

# CHWIORYDD ELIM





**Cafodd chwiorydd Elim fore hyfryd yn ymweld â Lowri Johnson. Bu hi’n ei tywys o amgylch y fferm ac yn sgwrsio am flodau. Roedd nifer yn ei hadnabod yn dda gan ei bod yn arfer mynychu Ysgol Sul Elim. Diweddwyd yr ymweliad gyda phryd o fwyd hyfryd yn y Forest Arms, Brechfa.**

**TUDALEN BLAEN**

**Thomas Lefi (1825-1916)**



**Anodd credu, efallai, ond cyrhaeddodd y cylchgrawn Trysorfa y Plant gylchrediad o 44,000 bob mis erbyn 1881! Fe'i cychwynnwyd a'i olygu rhwng 1862 a 1911 gan Thomas Levi a gwnaeth y cylchgrawn gyfraniad enfawr i fywyd Cymru. Y Methodistiaid Calfinaidd oedd yn cyhoeddi'r cylchgrawn ond roedd yn boblogaidd gyda'r holl enwadau Anffurfiol. Fe'i darllenwyd led y byd!**

**Thomas Lefi, drwy Trysorfa y Plant, fu'n bennaf gyfrifol hefyd dros sicrhau cofgolofnau i Daniel Rowland yn Llangeitho, Thomas Charles yn y Bala a Williams Pantycelyn yn Llanfair-ar-y-bryn. Ei anrheg e yw'r pulpud sydd yng Nghapel Coffa Pantycelyn yn Llanymddyfri.**

**Rydyn ni'n dathlu deucan mlynedd geni Thomas Lefi'r mis hwn. Fe'i ganed 12 Hydref 1825 ger Ystradgynlais i deulu tlawd ac o dras Iddewig. Chafodd e fawr o ysgol ac yn wyth oed roedd yn gweithio yn y gwaith haearn lleol. Drwy gyfrwng dosbarth nos a chapel Cwm-gïedd a chefnogaeth ei fam llwyddodd i ddiwyllio'i hunan yn fawr a thyfu'n ysgolhaig o fri. Bu'n weinidog gyda'r Methodistiaid Calfinaidd o tua 1855 yn Ystradgynlais a Threforus ac yna am chwarter canrif yng nghapel Y Tabernacl, Aberystwyth, capel sydd wedi hen fynd erbyn hyn.**

**Yn awdur toreithiog, ysgrifennodd lu o lyfrau ar bynciau crefyddol a hanesyddol a chyfieithodd nifer helaeth o lyfrau o'r Saesneg i'r Gymraeg. Cynorthwyodd Joseph Parry gyda geiriau 'Cantata'r Adar' a 'Chantata Joseph'. Cyfansoddodd lawer o emynau hefyd ac mae un ohonynt (553) yng Nghaneuon Ffydd. Mae Wayne Hughes yn Emynau Ffydd 2 yn ei ddisgrifio fel emyn hwyliog a hyderus sy'n gorfoleddu fod gennym newyddion da i'w gyhoeddi 'fod Iesu eto'n fyw'.**

**Dyma'r pennill cyntaf:**

**Yr Iesu atgyfododd
yn fore'r trydydd dydd;
nôl talu'n llwyr ein dyled
y Meichiau ddaeth yn rhydd:
cyhoedder heddiw'r newydd
i bob creadur byw,
er marw ar Galfaria
fod Iesu eto'n fyw.**



**Emyn arall poblogaith yn ei gyfnod o'i eiddo oedd '*Rwyf finnau'n filwr bychan'.* Ond yn ddiamau, ei gyfraniad llenyddol pennaf oedd cychwyn Trysorfa y Plant.**

**Bu'n briod ddwywaith. Mab iddo yntau a'i ail wraig oedd Thomas Arthur Lefi (1874-1954). Ei gamp fawr yntau. fel y dywed Y Bywgraffiadur Cymreig, oedd 'sefydlu Adran y Gyfraith yn Aberystwyth, a chodi golygon y miloedd o efrydwyr o bob rhan o Gymru a gwledydd eraill a ddaeth i Aberystwyth, nes bod yr Adran hon mor uchel ei pharch yn y byd academig ag unrhyw adran arall yn y Brifysgol'. Ni chyhoeddodd lawer ond ymhlith ei gyhoeddiadau mae Casgliad o Ganeuon Cymu (1896) a gychwynnwyd gan ei dad.**

**Bu farw Thomas Lefi 16 Mehefin 1916 yn 90 oed.**

**Beth am orffen drwy ddyfynnu emyn arall o eiddo Thomas Lefi sef 'Oleuni Mwyn' cyfieithiad o Lead, kindly Light gan John H Newman a genir ar y dôn Sandon.**

**Dywed Cydymaith i Caneuon Ffydd fod yr emyn yn sôn am gael 'arweiniad o dywyllwch i oleuni' a'i bod yn debygol mai salwch a phryderon Newman a achosodd iddo'i gyfansoddi. Fersiwn E Keri Evans, un o gyn weinidogion y Priordy, sydd yn Caneuon Ffydd – y cyfieithiad gorau yn ôl Pwyllgor y gyfrol honno. Eraill sydd wedi cyfieithu'r emyn i'r Gymraeg yw Elfed a John Morris Jones. Dyma ddyfynnu cyfieithiad Thomas Lefi yn llawn y tro hwn er clod iddo:**



**Oleuni mwyn, trwy dew gysgodau'r nef, O! arwain fi;
Mae'r nos yn ddu, a minnau'n mhell o dref, O! arwain fi;
Cyfeiria'm traed, ni cheisiaf weld ymhell,
I mi, mae goleu arf fy ngham yn well.
Nid oeddwn gynt a'm gweddi am Dy Wawr i f'arwain i;**

**Chwenychwn gael a gweld fy ffordd ond 'nawr O! arwain fi;
Dewiswn goegwych ddydd; er ofnau lu,
Balch oedd fy mryd; na chofia'r amser fu.**

**Dy rasol nerth, a'm daliodd hyd yn hyn, Fe'm harwain i
Dros greigiau serth, dros arw bant a bryn, A'r nos a ffŷ;
Wynebau hoff, a gollais enyd awr,
A wenant arnaf gyda'r nefol wawr.**

**THEATR CYMRU**




*Golwg newydd ar y stori garu drasig enwog, sy'n gosod y ffrae ffyrnig rhwng y teuluoedd Montague a Capulet yng nghymdeithas dwyieithog Cymru*

**ROMEO A JULIET**

**Steffan Cennydd – Romeo
Annes Elwy - Juliet**

**Ffwrnes, Llanelli
Mercher / Iau
22-23 Hydref 2025 – 7.30**

**Tocynnau: £18 | £20**

*Bydd y cynhyrchiad arloesol hwn yn plethu'r Gymraeg a'r Saesneg, gan archwilio'r hunaniaeth Gymreig a chynnig safbwynt newydd ar ddrama anfarwol Shakespeare*

## RHAGOR O LUNIAU O'R OEDFA GOMISIYNU








**CYFRES YR EGLWYSI ANGHYFFREDIN**

**EGLWYS SAN MARTIN, CWM-IOU**

**Edrychwn yn bennaf ar yr adeiladau**



**Pentref bychan gwledig yng nghymuned Crucornau ym Mynwy yw Cwm-iou. Fe'i lleolir filltir i'r gorllewin o'r Pandy yng ngogledd-orllewin eithaf Mynwy ar ffordd fynydd sy'n arwain i fyny cwm hir Dyffryn Ewias i ardal Capel-y-ffin a thros Fwlch yr Efengyl i'r Gelli Gandryll.**

**Gorwedd y pentref ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ar lan Afon Honddu. Rhai milltiroedd yn uwch i fyny'r cwm ceir Llanddewi Nant Hodni lle ceir adfeilion abaty canoloesol.**

**Mae'r pentref yn adnabyddus am yr eglwys blwyf, Eglwys Sant Martin, sy'n dyddio o'r 12g a'r 13g. Mae'n sefyll ar lethr serth ar ochr ddwyreiniol y dyffryn sy'n agored i dirlithriadau. Mae'r sylfeini ansefydlog wedi arwain at adeilad sydd prin yn meddu ar ongl sgwâr neu wal unionsyth. Mae wedi cael ei galw yr "eglwys fwyaf cam ym Mhrydain Fawr". Mae'n gogwyddo ymhellach hyd yn oed na'r tŵr enwog yn Pisa!**

**Cynhelir gwasanaethau yn yr eglwys o hyd.**

## PANED A SGWRS A MYFYRDOD BYR YNG NGWESTY'R LLWYN IORWG


### Cyfarfod Mis Medi




**PANED A SGWRS**

**Gwesty'r Llwyn Iorwg**
**12 Tachwedd 2025**
**Cyfle am baned, sgwrs a myfyrdod byr**

**SINEMA SBESIAL**
**9 Hydref 2025 – Yr Egin - 7 pm**



**Oed Yr Addewid *(Do Not Go Gentle)***
**Cyfarwyddwr ac Awdur: Emlyn Williams**
**Cynhyrchydd: Alun Fred Jones**
**Tocyn: £6**

## CINIO SUL YR OFALAETH – 21 MEDI 2025



**Daeth tyrfa niferus o Aelodau'r Ofalaeth ynghyd i Ginio Sul yng Ngwesty'r Llwyn Iorwg, Dydd Sul, 21 Medi.**

**Hyfrydwch oedd cael cymdeithasu gyda'n gilydd dros ginio blasus. Diolch i Mair o Gapel Cana am wneud y trefniadau gyda chymorth parod ein Gweinidog. Ann(E ), Olga (HA), Joanna (B) a Rhian (P) gasglodd yr enwau.**

**Cafwyd Cinio Sul yr Ofalaeth llwyddianus iawn unwaith eto.**

**DIOLCH YN FAWR**

**Diolch i Beti-Wyn, Tudur Dylan Jones, Betsan James ac Athrawon yr Ysgolion Sul am y lluniau'r mis hwn.**

**CWRDD CHWARTER**
**Dydd Iau, 27 Tachwedd 2025**
**Y Gynhadledd am 10.30**
**Cyfarfody Prynhawn am 1.30pm**
**Capel Seilo, Llangeler**



**Gwefan yr Undeb: www.annibynwyr.org**

## DIOLCHGARWCH YM MHLAS-Y-DDERWEN




**Roedd hi'n ddiwrnod braf a byd natur ar ei orau pan gynhaliwyd Cwrdd Diolchgarwch Cartref Plas-y-dderwen brynhawn Gwener 26 Medi 2025. Roedd y lolfa'n llawn hyd yr ymylon wrth i'r Parchedig Beti-Wyn groesawu'r trigolion ac aelodau gwahanol eglwysi Gofalaeth Caerfyrddin a Bancyfelin i'r cwrdd.**

**Cawsom ganu pedwar emyn yn ystod yr oedfa - Nid wy'n gofyn bywyd moethus, Rwy'n canu fel cana'r aderyn yn Gymraeg ac O God our help in ages past a We plough the fields and scatter yn Saesneg, gyda Mai Thomas wrth yr organ. Roedd graen ar y canu hefyd.**



**Cyflwynwyd yr emynau a gan y Parchedig Catrin Ann a darllenwyd o'r Beibl gan y Parchedig Beti-Wyn a'n harweiniodd hefyd mewn myfyrdod a gweddi.**

**Yn ei myfyrdod soniodd Beti-Wyn am brofiad y bore yn mynd am dro gyda'r cŵn ym Mharc yr Esgob yn Abergwili ac yn dysgu llawer am y coed a'r dail o'i chwmpas wrth sgwrsio â'r garddwr. Daeth â rhai dail gyda hi i'r Cartref. Er i rai ohonom adnabod ambell ddeilen, doedd neb yn gwybod am un ohonynt, sef deilen y Goeden Ginco! Wyddoch chi amdani, tybed?**



**Roedd pawb yn adnabod deilen y dderwen ar unwaith! Canolbwyntiodd Beti-Wyn ar y dderwen, a'r fesen, ffrwyth y goeden honno, gan ryfeddu fel y mae plannu peth mor fach yn gallu tyfu mor fawr. A'r pethau bach sy'n bwysig mewn bywyd, fel cymwynasgarwch a chodi'r ffôn a chyfarch, a'r potensial ganddynt i dyfu'n bethau mawr yng ngolwg llawer.**

**Diolch am oedfa hyfryd a'r cymdeithasu dros baned wedyn ac yn arbennig i Lisa Peart, Cydgysylltydd Gweithgareddau'r Cartref, am ei gwaith trefnu.**

EIN cofion cynnes at bawb sy'n anhwylus y dyddiau hyn, yn enwedig y rhai sy'n cael neu wedi cael triniaeth yn yr ysbyty a phawb sydd mewn cartrefi ac yn gaeth i'w haelwydydd ar hyn o bryd. Meddyliwn yn arbennig y mis hwn am Maureen Richards (HA) a Daisy Devoland (HA) sydd wedi symud i Gartref Gofal Gwernllwyn, Cross Hands. Cofion annwyl atoch i gyd.

Llongyfarchiadau i Elin Wyn sydd wedi'i hethol yn ddiacon yn Eglwys Gymraeg Canol Llundain. Newyddion ardderchog a phob dymuniad da iddi wrth y gwaith.



Ar Sul olaf mis Awst, ein Gweinidog gyflwynodd yr emynau ar Caniadaeth y Cysegr ar Radio Cymru a'i dewis o emynau'n gysylltiedig â Chwm Tawe. Mewn rhaglen arall Nicki Roderick (P) oedd yn arwain Cymanfa Ganu Annibynwyr Gogledd Orllewin Myrddin yng Nghapel Blaen-y-coed.

Bu Huw Michael (P) ar Newyddion S4C yn sôn am y penderfyniadau diweddar i ganiatáu i ffermydd solar gael eu datblygu ar dir amaethyddol da neu dir o bwys amgylcheddol fel lefelau Gwent. Mynegodd y farn y byddai'n anodd i'r Llywodraeth osgoi defnyddio tir amaethyddol da os yw'n mynd i flaenoriaethu cyrraedd y cynnydd y mae'n ei dargedu ar gyfer ffermydd solar. Buodd hefyd ar y Post Prynhawn a Wales Today yn sôn am y cyhoeddiad fod prosiect i ddal a storio deuocsid carbon o'r gwaith sment yn Padeswood, Sir y Fflint yn symud yn ei flaen. Bydd y deuocsid carbon yn cael ei dynnu o'r nwyon, sy'n cael eu rhyddhau i'r awyr ar hyn o bryd, ac yn cael ei gywasgu a'i ddanfon trwy rhwydwaith o bibellau a'i yrru i hen gronfa nwy yn y graig gannoedd o droedfeddi o dan wely'r mor ym Mae Lerpwl. Arian y llywodraeth fydd yn talu am hyn oll. Mae'n rhan o gynllun CCS (Carbon Capture and Storage) HyNet ym Mae Lerpwl.

Llongyfarchiadau i Beti-Wyn ar ennill Cadair Eisteddfod Gadeiriol Y Tymbl am ei cherdd ar y thema Diosg. Edrychwn ymlaen at ddarllen y gerdd yn ein rhifyn nesaf.

Mae'n siŵr ein bod ni i gyd wedi mwynhau'r canu gwych yng Nghymanfa Cofio Gwynfor a welwyd ar Dechrau Canu Dechrau Canmol. Cawsom hefyd glywed am fywyd a gwaith Gwynfor gan ei deulu a'i gydnabod yn cynnwys Heledd ap Gwynfor (P), Maer ein Tref, a Peter Hughes Griffiths (P), cynghorydd ar Gyngor Sir Gâr ac un a fu'n cydweithio'n agos iawn ag e. Rhaglen arbennig.

**Diolch yn fawr i Alison Parsons (P) a'i Thîm am gynnal Bore Coffi MacMillan am y pymthegfed tro, gan godi arian sylweddol at yr achos. Y cyfanswm erbyn hyn yw £1100! Ardderchog yn wir!**

**Cofiwch droi at Bodlediad ein Gofalaeth i glywed cyfweliad rhwng Elinor Wyn (P), Ysgrifennydd yr Undeb a Sulwyn Thomas (P) – eitem ddiddorol a gwerth ei chlywed!**

**I gloi, ein dymuniadau gorau i'n Gweinidog ar ei thaith i Thailand. Gobeithio y cewch amser da a dewch yn ôl yn ddiogel!**

**Unrhyw newyddion ar gyfer rhifyn Tachwedd i'n Gweinidog neu Alun Charles**

## CYDYMDEIMLAD

**Estynnnwn ein cydymdeimlad cywir â nifer o deuluoedd sydd wedi colli anwyliaid yn ddiweddar:**

- **Eleri Thomas (P) ar golli'i mam, Rosemary Morgan, Cwm Ifor, mam yng nghyfraith Emyr a mam-gu Jac. Cofiwn hefyd am ei mab, Y Parchedig Evan Morgan, Capel Salem, Caerdydd sy'n dod atom i'r Priordy i gynnal oedfaon yn gyson.**

- **Edward Davies (E) ar farwolaeth ei chwaer, Julia Davies, Pencader.**

- **Heledd ap Gwynfor (P) ar golli'i modryb, Meleri Mair, Llanfihangel-ar-arth. Bydd llawer yn ei chofio fel aelod o'r grŵp pop-gwerin ysgafn Y Diliau gynt.**

**Cofiwn amdanoch i gyd yn eich galar a'ch hiraeth.**

| CWIS Y DIARHEBION - ATEBION | | | |
|---|---|---|---|
| 1 | garreg | 6 | gelu |
| 2 | bwyta | 7 | melinydd |
| 3 | asgwrn | 8 | gallu |
| 4 | euog | 9 | tân |
| 5 | wragedd | 10 | cath |

# DYLETSWYDDAU

## ROTA YMWELWYR
## ELIM, HEOL AWST A'R PRIORDY

### MEDI / HYDREF

| E | Aelodau | HA | Aelodau | P | Hydref - Ein Gweinidog |
|---|---|---|---|---|---|

## HEOL AWST
## DYLETSWYDDAU'R SUL

| Hydref | Ernest Jones<br>Dave Thomas | Tachwedd | Alun Williams<br>Olga WIlliams |
|---|---|---|---|

## CAPEL ELIM

### BLODAU

| Hydref | 5 | Carwen Davies | Tachwedd | 2 | Brian Jones |
|---|---|---|---|---|---|
| | 19 | Claire Thomas | | 16 | Anona Defis |

### PARATOI'R BWRDD CYMUN

| Hydref | 5 | Amanda Rees Davies |
|---|---|---|
| Tachwedd | 2 | Claire Thomas |

## PRIORDY

### GOFALWR / GWRESOGWR Y MIS

| Hydref | | Tachwedd | |
|---|---|---|---|
| Gofalwr | Gwresogwr | Gofalwr | Gwresogwr |
| Sulwyn Thomas | Philip Jones | Jayne Woods | Huw Jones |

### BLODAU

| Hydref | 5 | Hilary Kynaston | Tachwedd | 2 | Myfanwy Jones, Llanarthne |
|---|---|---|---|---|---|
| | 12 | | | 9 | Heol Awst |
| | 19 | Meleri Ll O'Leary | | 16 | Mwynwen Jones |
| | 26 | | | 23 | |
| | | | | 30 | Catrin Mair Jones |

| PARATOI'R BWRDD CYMUN | | | |
|---|---|---|---|
| Hydref | 7 | Hwyr | Llinos Jones ac Elen Marks |
| Tachwedd | 2 | Bore | Mwynwen Jones a Thelma Evans |

| DARLLENWYR | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Hydref | 5 | Y Plant | Tachwedd | 2 | Y Plant |
| | 12 | Emlyn Schiavone | | 9 | June Thomas |
| | 19 | Meleri Ll O'Leary | | 16 | Sulwyn Thomas |
| | 26 | Gareth Gravell | | 23 | Dennis jones |
| | | | | 30 | Catrin Mair Jones |

| CYHOEDDWYR | | | |
|---|---|---|---|
| Hydref | Dennis Jones | Tachwedd | Elis Jones |

| CYFARFODYDD DIACONIAID AC YMDDIRIEDOLWYR EIN GOFALAETH | | | |
|---|---|---|---|
| ELIM | I'w gadarnhau | | |
| HEOL AWST | Prynhawn Mercher 11 Chwefror | 2.00 | Festri Heol Awst |
| Y PRIORDY | Nos Lun 17 Tachwedd | 7.00 | Festri'r Priory |

## DIOLCH YN FAWR EIRA



Mae Eira Phillips wedi penderfynu ymddeol fel organydd yn y Priordy a hynny ar ôl blynyddoedd lawer o wasanaeth ffyddlon.

Mae'n dyled yn fawr i chi Eira. Diolch am bopeth a wnaethoch a phob dymuniad da i chi i'r dyfodol.

## SULIADUR HYDREF / TACHWEDD 2025

| DYDDIAD | 10.00 | 11.30 | 5.00 |
|---|---|---|---|
| **Hydref 5** | Priordy<br>*Diolchgarwch*<br>Oedfa Deulu<br>Gweinidog | Elim (+HA) ©<br>*Diolchgarwch*<br>Oedfa Deulu<br>Gweinidog | Priordy (+ E, HA) ©<br>*Diolchgarwch*<br>Dr Fiona GanOn<br>Gweinidog |
| **Hydref 12** | Heol Awst (+ E a P)©<br>*Diolchgarwch*<br>Aelodau | | |
| **Hydref 19** | Priordy<br>Aelodau | Elim (+ HA)<br>Aelodau | |
| **Hydref 26** | Priordy<br>Alun Charles<br><br>Heol Awst (+E)<br>Emyr Gwyn Evans | | |
| Tachwedd 2 | Priordy ©<br>Oedfa Deulu<br>Gweinidog | Elim (+HA) ©<br>Gweinidog | |
| **Tachwedd 9** | Heol Awst (+ E, P)©<br>Gweinidog | | |
| **Tachwedd 16** | Priordy<br>Gweinidog | Elim (+HA)<br>Gweinidog | |
| **Tachwedd 23** | Priordy<br>Owain Llyr Evans<br><br>Heol Awst (+E)<br>John Gwilym Jones | | |
| **Tachwedd 30** | Priordy<br>Oedfa i Gapeli Cymraeg y dref<br>Gweinidog | | |

## AMSERLEN YR YSGOL SUL
## HYDREF / TACHWEDD 2025

**Elim**
**5 Hydref – Oedfa Deulu**
**12 Hydref – Ysgol Sul**
**19 Hydref – Ysgol Sul**
**26 Hydref – dim YS**
**2 Tachwedd – dim YS**

**Y Priordy**
**5 Hydref – Oedfa Deulu**
**12 Hydref – Ysgol Sul**
**19 Hydref – Ysgol Sul**
**26 Hydref – dim YS**
**2 Tachwedd – Oedfa Deulu**

## YSGOLION SUL YR OFALAETH YN DYSGU WRTH FWYNHAU
## ELIM, FFYNNON-DDRAIN





## Y PRIORDY



## Y diweddar Emyr Jones

✝

**Gyda thristwch y clywsom am golli Emyr Jones (Elim) a fu farw'n dawel yng Nghartref Awel y Môr, Gorseinon ar 16 Awst 2025 yn 62 oed.**

**Un o Lanboidy yn wreiddiol oedd Emyr ond symudodd gyda'i rieni, Handel ac Evelyn Jones i gymuned glos Parc Gwyn, Trefechan.**

**Bu'n gweithio ar fferm Castell Howell gyda Brian Jones a'r teulu gan ymgymryd â nifer o dasgu - o odro i baratoi a gwerthu twrcïod adeg y Nadolig. Roedd yn uchel iawn ei barch ymhlith teulu Castell Howell.**

**Roedd ganddo ddiddordeb mawr mewn tractorau, motobeics a cheir.**
**Astudiodd beirianeg mecanyddol a arweiniodd at dderbyn prentisiaeth gyda Thîm Lotus. Dychwelodd adre gan weithio am ychydig yn Garej Citroën yn y dref ac yna yn Siop Drydan Comet.**

**Torrodd ei iechyd yn gynnar iawn yn ei fywyd, a derbyniodd ofal arbennig gan Evelyn ei fam tan i'w gyflwr iechyd ddirywio pan symudodd i Gartref Awel y Môr, Gorseinon a derbyn yr un gofal yno.**

**Cofiwn am ei ddewrder a'i ddycnwch yn mynychu angladd ei fam 20 mis yn ôl er gwaethaf ei gyflwr iechyd bregus.  Bu'r golled honno yn un drom iawn iddo.**

**Roedd ei angladd, a gynhaliwyd b'nawn Mawrth, 16 Medi yn breifat yn ôl ei ddymuniad. Gwasanaethwyd gan ei Weinidog a rhoddir ei lwch i orwedd ym mynwent Elim maes o law.**

**Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â'i deulu gan ddiolch iddynt am ei ofal ohono a'u hymweliadau cyson.**

**Gorffwysed Emyr mewn hedd a llewyrched goleuni tragwyddol arno.**

**Ein Gweinidog**




**CYRDDAU DIOLCHGARWCH 2025**

(Sylwch bod y dyddiadau yn wahanol eleni i'r arfer oherwydd bod y Gweinidog dramor mewn cynhadledd am bythefnos ym mis Hydref)
*Byddwn yn casgslu nwyddau i Fanc Bwyd Caerfyrddin yn ystod ein cyrddau dioclhgarwch eleni.*

**Cana**
Iau 2 Hydref am 7.00
Pregethwr gwadd: Siôn Page
Swper iddilyn
Sul 5 Hydref am 1.30
Oedfa Deulu (Cymun)

**Priordy**
Sul 5 Hydref
Oedfa Deulu am 10.00
Oedfa Bregethu (Cymun) am 5.00
Pregethwr gwadd: Dr Fiona Gannon
Swper i ddilyn

**Elim**
Sul 5 Hydref
Oedfa Deulu (Cymun) am 11.30

**Bancyfelin**
Iau 9 Hydref a 7.00
Pregethwr gwadd: Llinos Jones
Swper i ddilyn
Sul 12 Hydref
Oedfa Deulu (Cymun) am 1.30

**Heol Awst**
Sul 12 Hydref am 10.00
Oedfa Ddiolchgarwch (Cymun) i Heol Awst, Elim a'r Priordy

Carmarthen
**Foodbank**
Banc Bwyd Caerfyrddin
Together with Trussell



# Apêl Cynhaeaf

### Helpwch drwy gefnogi Banc Bwyd Caerfyrddin y Cynhaeaf hwn

Yn y tair wythnos cyn y Cynhaeaf, bydd y banc bwyd yn cefnogi dros 200 o unigolion a theuluoedd lleol sy'n wynebu caledi.

## Rhoi bwyd



Rhoddwch eitem neu ddwy o'n rhestr siopa, gan sicrhau y gallwn ddarparu bwyd i bobl sy'n wynebu caledi yn eich cymuned.

## Rhowch arian



Helpwch ni i dalu costau storio a dosbarthu bwyd, yn ogystal â datblygu prosiectau cynaliadwy.

## Rhestr siopa

- Tuniau o gig
- Tuniau o lysiau
- Tuniau o ffrwythau
- Coffi
- Te
- Tuniau o sŵp
- Tuniau o bwdin reis
- Tuniau o gwstard
- Jam
- Deunyddiau ymolchi

**carmarthenfoodbank@towychurch.co.uk**
**carmarthen.foodbank.org.uk**